

Cyngor Cymuned Llanycil

Adroddiad Bioamrywiaeth 2022-25

Yn ddaearol mae Plwyf Llanycil yn cwmpasu ardal o lan Llyn Tegid i'r Arennig Fawr, a thrwy ganol Llyn Tryweryn, a gronnwyd yn y chwedegau i gyflenwi dinas Lerpwl, i gyffiniau tref Y Bala. Mae'r gair Llanycil yn dod o'r llanyn y gongl (cil) megis hen eglwys blwyf Y Bala, a Beuno yw ei Mabsant. Adnodd mwyaf gwerthfawr y plwyf yw Llyn Arenig sydd yn cyflenwi dŵr yfed i drigolion Penllyn a darnau o Edeyrnion.

Poblogaeth denau a gwasgaredig a geir yn y plwyf bellach gyda dau bentref bach sef Rhyduchaf a'r Parc, a chlwstwr bychan o dai yn Llidiardau a'r Arenig o fewn ei thiriogaeth. Ar un adeg bu dwy ysgol gynradd yn y Plwyf sef Ysgol Maesywaen a gaewyd yn niwedd y chwedegau pan agorwyd ysgol newydd Bro Tryweryn yn y Frongoch ac Ysgol y Parc a gaewyd yn 2013. Mae'r Ysgol Bro Tryweryn yn cymryd rhan yn y rhaglen addysg amgylcheddol Eco-Sgolion ac wedi derbyn baneri gwyrdd am eu hymdrechion.

Amaethyddiaeth yw'r prif gyflogwyr yn yr ardal, ond yn dechrau'r ugeinfed ganrif roedd chwarel brysur ar lethrau'r Arenig a thros ddau gant o weithwyr yno. Mae nifer sylweddol yn teithio allan o'r ardal i amrywiaeth o swyddi. Gellir dweud fod trigolion Llanycil yn ddiwylliedig iawn, ac adlewyrchir hyn yn y bwrlwm cymdeithasol a geir yn y gwahanol gymdeithasau sydd yn defnyddio'r ddwy neuadd a'r tri chapel o fewn y plwyf yn wythnosol.

Yng nghyfrifiad 2011 yr oedd y boblogaeth yn 416 ac roedd 323 o etholwyr ar y rhestr gyfredol. Praesept y Cyngor yw £4,500.

Mae Cymuned Llanycil yn rhan o ardal Parc Cenedlaethol Eryri gydag amrywiaeth o gynefinoedd: mynyddoedd, mawndir, ffriddoedd, coedwigoedd a fforest, tir gwastad a dolydd, gorlifdir, afonydd, llynnoedd. Mewn cydweithrediad a'r Parc mae nifer fawr o lwybrau cyhoeddus yn cael eu cynnal a chadw sy'n darparu mynediad i deithiau cerdded hamdden ar hyd yr ardal.

Mae amrywiaeth o gynefinoedd: mynyddoedd, mawndir, ffriddoedd, coedwigoedd a fforest, tir gwastad a dolydd, gorlifdir, afonydd, llynnoedd. Mae rhan fach o'r Cyngor Cymuned yn rhan o ardal Parc Cenedlaethol Eryri. Mae'r amaethwyr, gyda chyngor gwahanol gynlluniau Llywodraeth Cymru a'r Parc Cenedlaethol yn cyfrannu'n sylweddol iawn at gynnal bioamrywiaeth yr ardal.

Nid ydi'r Cyngor Cymuned yn berchen ar unrhyw dir agored, caeau chwarae na mynwentydd ond yn cydweithio ag Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd ynglŷn â rheoli ochr ffyrdd mewn ffordd sy'n annog bioamrywiaeth. Er mwyn gwarchod adar sy'n nythu ni thorri'r gwrych na'r coed rhwng y 1af o Fawrth a 1af o Fedi.

Arfarnwyd cynllun 2019:

Wrth ystyried y cynllun a wnaed bu i'r Cyngor:-

- i) Cynnwys bioamrywiaeth o fewn llunio penderfyniadau a diogelu'r prif rywogaethau a'r cynefinoedd wrth ymateb i geisiadau cynllunio.
- ii) Bu iddynt gydweithio ag Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd ynglŷn â rheoli ochr ffyrdd mewn ffordd neith annog bioamrywiaeth.
- iii) Hyrwyddo gwaith Parc Cenedlaethol Eryri drwy arddangos eu posteri ayyb yn ein neuaddau cymunedol.
- iv) Cefnogi gwaith amaethwyr, gwaith Parc Cenedlaethol Eryri a Sioe Amaethyddol a Arddwriaethol Maesywaen.

Adroddiad Gweithredu 2022-25

Camau gweithredu i:		Wedi eu monitro gan:
-cynnwys bioamrywiaeth o fewn llunio penderfyniadau a chaffael	- Wrth ymateb i geisiadau cynllunio - wrth ymwneud a phrosiectau'r Cyngor - wrth bwrcasu	Cyngor
-codi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth a'i bwysigrwydd	Cyd-weithio gyda'r mudiadau lleol Hyrwyddo gwaith Parc Cenedlaethol Eryri.	Cyngor
-diogelu'r prif rywogaethau a'r cynefinoedd	Gofalu bod ceisiadau cynllunio yn cydymffurfio gyda rheolau gwarchod Parc Cenedlaethol Eryri. Chydweithio ag Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd ynglŷn â rheoli ochr ffyrdd mewn ffordd neith annog bioamrywiaeth a bod gwrychoedd a choed ddim yn cael eu torri rhwng 1af o Fawrth a 1af o Fedi.	Cyngor
-adfer a chreu cynefinoedd a rhwydweithiau ecolegol cydnerth	Annog a chefnogi unrhyw brosiectau lleol amgylcheddol perthnasol. Cyd-weithio gyda'r ysgol, ysgol feithrin, CFFI a mudiadau lleol eraill ar brosiectau plannu blodau, gosod bocsys adar ayyb. Cytunwyd ar gyllideb o £50 y flwyddyn gan edrych am ffynonellau eraill hefyd i ddarparu offer. Gosod bocsys adar.	Cyngor
-mynd i'r afael ag elfennau negyddol: lleihau llygredd e.e. defnyddio atebion yn seiliedig ar natur, mynd i'r afael â rhywogaethau goresgynnol	Ail gylchu gwastraff.	Cyngor
-defnyddio gwella a rhannu tystiolaeth	Hyrwyddo gwaith Parc Cenedlaethol Eryri drwy arddangos eu posteri ayyb yn ein neuaddau cymunedol.	Cyngor
-cefnogi capasiti ac/neu sefydliadau eraill	Cefnogi gwaith amaethwyr, gwaith Parc Cenedlaethol Eryri a Sioe Amaethyddol a Arddwriaethol Maesywaen.	Cyngor

Arolwg o ddyletswydd Adran 6
Monitro parhaus
Arfarniad yn Rhagfyr bob blwyddyn

Bethan Jones
Clerc Cyngor Cymuned Llany Cil
01/12/22

